# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 23/03/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Dreftadaeth


## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Y Gwasanaeth Ambiwlans

**C11 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiwygio'r gwasanaeth ambiwlans? OAQ(3)2766(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae'r GIG cyfan wrthi'n gweithredu rhaglen ddiwygio'r GIG. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gweithio'n agos gyda phob bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth gan fod ganddi ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o weithredu system integredig o ofal iechyd safonol.

### Cydweithio (Awdurdodau Lleol)

**C12 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol er mwyn cyflenwi gwasanaethau ar y cyd yng Nghymru? OAQ(3)2757(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod yr uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus ddiweddar, eglurais bwysigrwydd cyflymu a dyfnhau'r broses o gydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er bod llawer o enghreifftiau da o gydweithio, mae angen i ni weithio'n galetach i sicrhau cynnydd. Mae hyn wrth wraidd ein rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi newydd sy'n dod yn ei blaen yn dda erbyn hyn.

### Allforion o Gymru

**C13 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefel allforion Cymru ar hyn o bryd? OAQ(3)2754(FM)

**Y Prif Weinidog:** Er gwaethaf marchnadoedd allforio cythryblus, sydd wrthi'n adfer eu hunain mewn llawer o achosion, mae cwmnïau yng Nghymru yn parhau i ryngwladoli, fel y mae cwmnïau mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ehangu hwn wedi arwain at bron i 41 y cant yn fwy o allforion o Gymru er 1999, o'u cymharu â 32.5 y cant ar gyfer y DU gyfan.

### Cymunedau yn Gyntaf

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru? OAQ(3)2752(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddatganiad llafar am y rhaglen yr wythnos diwethaf. Yn fy marn i, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i fod yn sail i'r weledigaeth i adeiladu Cymru well gyda phartneriaethau lleol yn cydweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill i adfywio eu cymunedau.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)2762(FM), yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Cyllideb 2010 y Canghellor

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Thrysorlys y DU ynghylch cyllideb 2010 y Canghellor? OAQ(3)1029(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Bûm mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion y Trysorlys ers dechrau yn fy swydd ym mis Rhagfyr. Yr wyf yn trafod ystod o faterion, gan gynnwys materion ynghylch setliadau'r gyllideb yn y dyfodol a chynlluniau gwario. Fel y gwyddoch, bydd y Canghellor yn cyhoeddi ei gyllideb ar gyfer 2010 yfory.

### Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf

**C11 Janet Ryder:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i brosiectau Cymunedau yn Gyntaf wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)1035(BB)

**Jane Hutt:** Tra oedd cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yn cael ei pharatoi, cynhaliwyd trafodaethau gyda phob Gweinidog ynglŷn â'r blaenoriaethau yn eu portffolios. Y canlyniad o ran y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yw bod y dyraniad refeniw wedi cynyddu 2.2 y cant yn uwch na'r gyllideb ar gyfer 2009-10.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1028(BB), yn ôl.*

### Y Sector Addysg Bellach

**C13 Chris Franks:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol i'r portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes ar gyfer y sector addysg bellach? OAQ(3)1024(BB)

**Jane Hutt:** Pan oedd cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yn cael ei pharatoi, cafwyd trafodaethau gyda phob Gweinidog am y blaenoriaethau yn eu portffolios. Y canlyniad ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes yw bod y dyraniad refeniw wedi cynyddu 2.5 y cant o'i gymharu â 2009-10, heblaw am ddyraniadau a throsglwyddiadau'r gyllideb atodol ar gyfer 2009-10.

### Y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd

**C14 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion sut y bydd gwaith y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesedd yn cael ei fwydo'n ôl i'r Cynulliad? OAQ(3)1026(BB)

**Jane Hutt:** Cafodd y bwrdd ei gyfarfod agoriadol ar 18 Mawrth pan ddechreuodd trafodaeth am y ffordd mwyaf priodol o gyfathrebu rhwng y bwrdd a'r Cynulliad. Unwaith y cytunir ar y dulliau cyfathrebu, byddwn yn bwydo'n ôl.

### Dyfarniadau Tâl Rhanbarthol

**C15 Brian Gibbons:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith dyfarniadau tâl rhanbarthol ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1001(BB)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn dibynnu ar staff sy'n gweithio mewn ystod o sefydliadau ledled Cymru i gyflawni amcanion ein gwasanaeth. Mae rhai o'r sefydliadau hyn yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac eraill gan adrannau'r DU. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw nad yw trefniadau tâl rhanbarthol yn trin pob gweithiwr yn deg, ac felly nid ydym yn cefnogi ymdrechion i'w hymestyn eto.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Dreftadaeth

### Cymryd rhan mewn Chwaraeon ar Lawr Gwlad

**C9 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad? OAQ(3)1111(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Chwaraeon Cymru i sicrhau bod pobl ifanc yn cael rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ein bod ni'n helpu ac yn hyfforddi ein gwirfoddolwyr a'n hyfforddwyr, a'n bod ni'n datblygu ein talent yn y byd chwaraeon.

### Treftadaeth yn 2010

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y caiff treftadaeth Cymru ei hyrwyddo yn ystod 2010? OAQ(3)1107(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein nod o helpu a hyrwyddo treftadaeth Cymru ledled Cymru a thu hwnt. Yn benodol, ar gyfer 2010-11, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £25.438 miliwn o arian cymorth grant i Amgueddfa Cymru er mwyn diogelu a hyrwyddo treftadaeth Cymru yn ei safleoedd ledled Cymru.

### Diogelu ein Treftadaeth

**C11 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer diogelu ein treftadaeth yng Nghymru? OAQ(3)1117(HER)

**Alun Ffred Jones:** Diogelu ein treftadaeth yw un o brif flaenoriaethau fy natganiad strategol am yr amgylchedd hanesyddol ynghyd â'r ystod o bolisïau a rhaglenni ar draws fy mhortffolio, a hynny mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys mesurau ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd, y celfyddydau, y Gymraeg, a chwaraeon.

### Cymorth Ariannol i Athletwyr

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth ariannol i athletwyr yng Nghymru? OAQ(3)1097(HER)

**Alun Ffred Jones:** Darperir cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ein hathletwyr drwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Y llynedd, cafodd y corff llywodraethu, Cymdeithas Athletau Cymru, dros £550,000.

## Darlledu

**C13 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol darlledu yng Nghymru? OAQ(3)1081(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn trafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU, darlledwyr, cynhyrchwyr, Ofcom a sefydliadau eraill ynghylch materion darlledu yng Nghymru. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chynrychiolwyr o'r cwmnïau sy'n gwneud cais am arian gan y consortia newyddion a ariennir yn annibynnol i Gymru, a chyfarfûm â Janet Lewis-Jones, chynrychiolydd Cymru yn Ymddiriedolaeth y BBC, ynghyd â rheolwyr S4C.

## Cymraeg

**C14 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg? OAQ(3)1116(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud Cymru yn wlad wirioneddol ddwyieithog lle gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ddiweddar, yr ydym wedi cyflwyno'r Mesur arfaethedig ynghylch y Gymraeg, ac yr ydym hefyd yn datblygu strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg i ymgynghori arni yn ddiweddarach eleni.

## Safleoedd Cadw

**C15 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno mynediad am ddim i bensiynwyr ac i blant sy'n byw yng Nghymru yn holl safleoedd Cadw? OAQ(3)1126(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i roi mynediad am ddim i'w henebion i drigolion Cymru sy'n 60 oed ac yn hŷn neu'n 16 oed ac yn iau, ac sydd wedi gwneud cais am y drwydded briodol. Mae mwy na 18,000 o drwyddedau am ddim wedi'u dosbarthu er 1 Medi 2008.